# Adroddiad Gwrthwynebiad

**I'r cynnig i adeiladu Ysgol Gynradd Gymraeg gyda darpariaeth gofal plant ar yr un safle ar y safle a ffefrir sef Chartist Way, Sirhywi, Tredegar.**

**Derbyniwyd un gwrthwynebiad/consyrn yng nghyswllt y cynnig hwn**

**Nodir y Cwestiynau ac ymatebion y Cyngor islaw**

| |
|---|
| **Bydd yr olygfa hardd sydd gennyf o fy ffenestr, oedd yn un rheswm pam y prynais yr eiddo lle mae fy nghartref yn y lle cyntaf, yn cael ei chuddio o fy eiddo.** |
| **<u>Ymateb:</u>**<br><br>Fel cyd-destun, yn unol â Chynllun Datblygu Lleol Blaenau Gwent 2006-2021 (Site_Descriptions.pdf (blaenau-gwent.gov.uk) tudalen 5, ni fwriedir y tir ger Chartist Way fel gofod gwyrdd. Mae'r tir yn safle tir llwyd sy'n golygu y cafodd ei adhawlio i greu llwyfan gwastad ar gyfer datblygu. Roedd wedi ei glustnodi'n flaenorol ar gyfer datblygiad diwydiannol.<br><br>Yng nghyswllt yr olygfa, pe byddai'r cynnig yn symud ymlaen, bydd y Cyngor yn sicrhau fod y dyluniad yn gydnaws ac nad yw'n effeithio'n negyddol ar yr olygfa ar gyfer preswylwyr lleol. Os aiff y cynnig ymlaen, rhagwelir y bydd yr ysgol yn adeilad un llawr wedi'i leoli ar ymyl gogleddol y safle. |
| **Annibendod, sŵn a'r rhwystr a achosir gan gerbydau adeiladu i'r fynedfa i fy nghartref.** |
| **<u>Ymateb:</u>**<br><br>Os yw'r cynnig yn symud ymlaen, wrth benodi contractwr, bydd y Cyngor yn sicrhau eu bod yn ystyriol o breswylwyr lleol a bod rheolaeth y safle yn effeithlon heb fawr ddim ymyriad a'r budd mwyaf i'r gymuned leol. Bydd ymgysylltu â'r gymuned yn hollbwysig a byddai preswylwyr lleol yn cael eu diweddaru'n gyson ar y broses adeiladu gan y Cyngor a hefyd y contractwr. |
| **Pan adeiledir yr ysgol, parcio a thraffig bydd pobl yn mynd â phlant i'r ysgol a'u codi oddi yno yn achosi cyfyngiadau parcio neu fynediad i fy nghartref.** |
| **<u>Ymateb</u>**<br><br>Cynigir y byddai'r ysgol a'r ddarpariaeth gofal plant ar yr un safle yn cael ei defnyddio o fis Medi 2023 ac y bydd yr ysgol yn datblygu drwy fodel egin, felly byddai nifer y staff, disgyblion a rhieni sy'n cael mynediad i'r safle yn digwydd mewn camau ac yn cynyddu dros nifer o flynyddoedd.<br><br>Cynhelir asesiad llawn o draffig a theithio fel rhan o'r cam dylunio a'r broses datblygu prosiect. Caiff maes parcio, mannau gollwng a chodi eu hystyried fel rhan o'r broses, i sicrhau y caiff y ddarpariaeth ei datblygu a'i chynllunio gan roi ystyriaeth i iechyd a diogelwch pawb. Mae'r Cyngor yn monitro mynediad i'r safle a diogelwch yn nhermau traffig a theithio i'r holl ysgolion, gan roi ystyriaeth hefyd i farn preswylwyr lleol. Bydd gofynion Gorfodaeth Parcio Sifil yn cael eu monitro i sicrhau diogelwch a chydymffurfiaeth ar y dechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol. |
| **Llinellau melyn dwbl yn cyfyngu parcio i fi ac ymwelwyr i fy eiddo.** |

| |
|---|
| **<u>Ymateb:</u>**<br><br>Dim ond unwaith y gwnaed y penderfyniad i symud ymlaen y gellir symud ymlaen â hyn.<br><br>Bydd Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd o fewn y Cyngor, yn arbennig yr Adran Priffyrdd, yn rhan o’r tîm prosiect sy’n ymwneud â datblygiad ac nodweddion y dyluniad. Caiff y defnydd o gyfyngiadau parcio a mesurau tawelu traffig eu hystyried wrth baratoi ar gyfer y camau cyn-cynllunio a chynllunio, yr ymgynghorir â phreswylwyr lleol arnynt. |
| **Sŵn adeiladu a phlant yn tarfu ar y tawelwch rwy’n ei fwynhau yn fy nghartref yn awr.** |
| **<u>Ymateb:</u>**<br><br>Fel y manylir uchod, bydd y broses adeiladu yn ystyried anghenion a sylwadau preswylwyr lleol gyda golwg ar leihau ymyriad – yn cynnwys sŵn.<br><br>Nid yw’r Cyngor yn rhagweld y bydd datblygiad a defnydd yr ysgol, yn cynnwys chwarae a dysgu awyr agored, yn cael effaith negyddol ar breswylwyr lleol. |
| **Dan reoliadau COVID-19, nid yw fy nghymdogion a finnau’n cael cyfarfod a thrafod ein pryderon, mae’n anystyriol cyfyngu amser o un mis dan gyfreithiau newydd rheoliadau Covid-19.** |
| **<u>Ymateb:</u>**<br><br>Mae’r prosesau statudol sy’n gysylltiedig gyda’r cynnig yn cydymffurfio’n llawn gyda’r gofynion a nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion (2018, fersiwn 2) Llywodraeth Cymru. Roedd y cyfnod ymgynghori o 42-diwrnod cyn cyfnod 28 diwrnod yr Hysbysiad Statudol yn cynnig cyfle i breswylwyr gymryd rhan mewn cyfarfodydd rhithiol a/neu ffôn a thrafodaethau gydag swyddogion er mwyn gwyntyllu eu sylwadau. Roedd hefyd gyfle i ymgyngoreion gysylltu â’r Cyngor i ofyn am gyfarfod.<br><br>Mae’r cynnig yn ei ddyddiau cynnar a heb ei gymeradwyo eto. Bydd cyfleoedd pellach os bydd y cynnig yn symud ymlaen, h.y. ar y camau cyn-cynllunio a chynllunio i breswylwyr ymgysylltu â, llunio, hysbysu a/neu wyntyllu eu sylwadau a’u gwrthwynebiadau. Bydd hefyd gyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â’r gymuned drwy gydol yr amser. |
| **Er fy mod yn cefnogi addysg Gymraeg, byddwn wedi credu y byddai safle hen golwg Glynebwy yn ddewis mwy addas ar gyfer cynllunio newydd.** |
| **<u>Ymateb:</u>**<br><br>Nid yw’r safle hwnnw ar gael a rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad tai. |